**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

**MINUTES**

CARDIFF
CAERDYDD

---

## CYFARFOD Y CABINET: ERROR! UNKNOWN DOCUMENT PROPERTY NAME.

---

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Councillor Phil Bale (Chair)<br>Councillor Sue Lent<br>Councillor Peter Bradbury<br>Councillor Dan De'Ath<br>Councillor Bob Derbyshire<br>Councillor Graham Hinchey<br>Councillor Susan Elsmore<br>Councillor Sarah Merry<br>Councillor Ramesh Patel |
| Gwylwyr: | Councillor Dianne Rees<br>Councillor Neil McEvoy<br>Councillor Judith Woodman |
| Swyddogion: | Paul Orders, Chief Executive<br>Christine Salter, Section 151 Officer<br>Marie Rosenthal, Monitoring Officer<br>Joanne Watkins, Cabinet Office |
| Ymddiheuriadau: | |

### 84 COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR 16 CHWEFROR 2017

PENDERFYNWYD: bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror yn cael eu cymeradwyo.

### 85 PAPUR GWYN "DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: CADARN A CHYFREDOL"

Ystyriodd y Cabinet ymateb Cyngor Dinas Caerdydd i ymgynghoriad y Llywodraeth Leol ar y Papur Gwyn â'r teitl "Diwygio Llywodraeth Leol: "Cadernid ac Adnewyddiad".

**PENDERFYNWYD:** bod

1. y cyflwyniad drafft mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn â'r teitl 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad', fel y rhoddir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo; ac

2. y caiff awdurdod ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i wneud unrhyw ddiwygiadau pellach i ymateb ymgynghoriad y Cyngor cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru erbyn 11 Ebrill 2017.

## 86 CAERDYDD DDWYIEITHOG: STRATEGAETH 5 MLYNEDD A CHYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020

Mae gan y Cyngor ofyniad statudol o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 i gynhyrchu strategaeth 5 mlynedd sy'n rhestru cynlluniau Cyngor Dinas Caerdydd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso defnydd yr Iaith Gymraeg yn ehangach yn yr ardal. Felly ystyriodd y Cabinet Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-20 cyn ei hystyried gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:** bod

1. Strategaeth 5 mlynedd yr Iaith Gymraeg Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 yn cael ei chymeradwyo a'i hargymell i'r Cyngor i'w mabwysiadu.

2. adolygiad allanol annibynnol o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn digwydd.

3. Y Cyngor yn cytuno bod craffu ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cael ei gynnwys yn benodol yn y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Craffu sy'n ymdrin â pholisïau a phartneriaethau.

## 87 CAEL GWARED AR DIR YN Y SGWÂR CANOLOG

***Ni fydd Atodiadau 2, 3, 4, a 5 yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Ystyriodd Cabinet adroddiad sy'n amlinellu'r cynnydd hyd yn hyn ar gynllun adfywio'r Sgwâr Canolog. Nodwyd bod y project wedi cael ei gynnal ar gyflymdra digynsail ac mae ar y trywydd cywir i ddarparu 1 miliwn troedfedd sgwâr o ddatblygiad defnydd cymysg, gyda swyddfeydd yn bennaf, o safon uchel er mwyn cynnwys hyd at 10,000o swyddi. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn ceisio awdurdod i brydlesu tir er mwyn darparu adeilad pencadlys CThEM.

**PENDERFYNWYD**

(1) y nodir cynnydd cynllun adfywio'r Sgwâr Canolog;

(2) bod prydlesu tir ddarparu pencadlys CThEM yn cael ei gytuno, gan adeiladu yn unol â Phenaethiaid Telerau a atodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn; a dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol, y Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn terfynu unrhyw drefniadau manwl ac i dod â'r brydles i ben yn unol â chyngor prisio er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## 88 STRATEGAETH CAFFAEL 2017-2020 (DARPARU GWERTH MASNACHOL A CHYMDEITHASOL) A CHOD YMARFER – CYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI

Derbyniodd Cabinet y Strategaeth Caffael am 2017-2020. Mae'r strategaeth yn gosod y blaenoriaethau caffael allweddol a'r newidiadau allweddol y mae angen eu gwneud er mwyn gwella rheoli gwariant allweddol yr awdurdod ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

**CYMERADWYWD:** bod

1. y Strategaeth Caffael 2017-2020 (atodir ar Atodiad 1) yn cael ei chymeradwyo.

2. llofnodi Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru - Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn cael i gymeradwyo.

3. yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol yn cael ei benodi fel Hyrwyddo gwrth-gaethwasiaeth a chyflogaeth foesegol y Cyngor

## 89 DATGANIAD POLISI CYFLOG BLYNYDDOL

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad polisi tâl bob blwyddyn. Felly ystyriodd y Cabinet y Polisi Tâl ar gyfer 2017/18 cyn i'r Cyngor ei ystyried. Rhoddodd y datganiad polisi fframwaith i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo yn deg ac yn wrthrychol ac yn ddiwahân.

**CYMERADWYIR:** bod y Datganiad Polisi Tâl 2017/18 atodedig (Atodiad 1) i'r Cyngor ei ystyried ar 23 Mawrth 2017.

## 90 ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH CAERDYDD A'R FRO

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gofyn i awdurdodau a'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn pob rhanbarth i baratoi a chyhoeddi asesiad ar y cyd o anghenion ceir a chymorth y boblogaeth, gan gynnwys gofalwyr sydd angen cymorth. Felly, ystyriodd y Cabinet yr asesiad o anghenion y boblogaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg cyn ei ystyried gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

1. y caiff cynnwys a darganfyddiadau'r asesiad o anghenion y boblogaeth ei nodi.

2. y caiff yr asesiad o anghenion y boblogaeth ei gymeradwyo i'w ystyried gan y Cyngor.

## 91 RHAGLEN PARTNERIAID HAWLIAU'R PLENTYN

Derbyniodd y Cabinet adroddiad sy'n amlinellu partneriaeth tair blynedd i ymuno â hi gydag Unicef UK er mwyn darparu Rhaglen Partneriaid Hawliau'r Plentyn yng Nghaerdydd. Lansiwyd y Rhaglen Partneriaid Hawliau'r Plentyn gan Unicef UK er mwyn ymgorffori hawliau dynol plant yng ngwasanaethau cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Mae'r ymagwedd ar gyfer Caerdydd yn cofleidio ymrwymiad clir y Cyngor i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n ceisio galluogi symudiad diwylliannol er mwyn sicrhau yr ystyrir hawliau plant ym mhob polisi a phenderfyniad y Cyngor, ac mae'n cynnwys nifer o fentrau ffocysedig sy'n ceisio sicrhau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

**PENDERFYNWYD**

1. derbyn y gwahoddiad gan Unicef UK i ymuno â phartneriaeth tair blynedd er mwyn darparu'r Rhaglen Partneriaid Hawliau'r Plentyn yng Nghaerdydd o fis Ebrill 2017.

2. Caiff cyfrifoldeb ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar y cyd ag Aelodau Cabinet ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd a Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu, er mwyn arwain trefniadau'r bartneriaeth a darparu Rhaglen Partneriaid Hawliau'r Plentyn.

## 92 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Mae'r WESP yn disgrifio'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg. Mae'r dyheadau o fewn WESP Caerdydd yn unol â strategaeth pum mlynedd Caerdydd Ddwyieithog.

**PENDERFYNWYD :** bod WESP Cyngor Caerdydd 2017-2020 yn cael ei gymeradwyo i'w weithredi o 1 Ebrill 2017.

## 93 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2018/19 A TREFNIADAU CYDLYNOL DERBYN I YSGOLION UWCHRADD 2018-2020

Yn unol ag Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 2998 a Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, gofynnir i'r Cyngor adolygu'r Polisi Derbyn i Ysgolion bob blwyddyn. Felly, ystyriodd y Cabinet y Polisi Trefniadau ar gyfer Derbyniadau Ysgol ar gyfer 2018/19 a'r Trefniadau Derbyniadau i Ysgolion Uwchradd ar gyfer 2018-20.

**PENDERFYNWYD**

1. y dylid pennu Trefniadau ar gyfer Derbyniadau Ysgol 2018/19 ac i gytuno ar y Polisi Derbyniadau 2018/19.

2. bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i ystyried ymhellach drefniadau ar gyfer derbyniadau ysgol y Cyngor gan gynnwys ymchwil ehangach i ddewisiadau arall ac effaith pob un, cyn ymgynghori â Pholisi Derbyniadau Ysgol y Cyngor 2019/20.

3. gweithredu Trefniadau Derbyniadau Ysgolion Uwchradd a Gydlynir ar gyfer derbyniadau’r grŵp oedran Blwyddyn 7 ym mis Medi 2018, mis Medi 2019 a Mis Medi 2020 i’w cytuno.

## 94 EHANGU PWERAU GORFODI I WELLA TIR CYHOEDDUS – DIWEDDARIAD

Derbyniodd y Cabinet adroddiad sy’n rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaed ar ehangu pwerau gorfodi er mwyn gwella'r cylch cyhoeddus. Mae’r adroddiad yn rhoi manylion am ymgynghoriad ag aelodau lleol ar hysbysiadau cosb benodedig ac yn rhoi manylion datblygu datganiad o'r polisi o ran Hysbysiadau Diogelu Cymunedau. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i sicrhau amgylchedd dinas o safon uchel, strydoedd glân ac wedi'u rheoli'n dda a herio cyfrifoldeb cymdeithasol gwael.

**PENDERFYNWYD**

1. bod Datganiad Polisi yn cael ei ddatblygu a’i gyflwyni i’r Cabinet i’w gymeradwyo o ran Hysbysiadau Diogelu Cymunedau a Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus.

2. y dylid cytuno ar gynllun peilot mewn perthynas â nifer ar wahân o Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn dilyn datblygu Datganiad Polisi.

3. y dylid darparu diweddariadau ac adroddiadau perfformiad chwarterol i Aelodau’r Cabinet yn anffurfiol o ran gorfodi mewn Gwasanaethau Cymdogaethau.

## 95 STRATEGAETH CYSGU AR Y STRYD 2017-2020

Derbyniodd y Cabinet Strategaeth Cysgu ar y Stryd Caerdydd 2017-2020. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth Caerdydd ddod â chysgu ar y stryd yng Nghaerdydd i ben ac mae'n rhestru 4 nod - gweithio i ddeall achos cysgu ar y stryd, gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y cyfeirir cymorth tuag at rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd a pheidio â'i atgyfnerthu, sicrhau ymyrraeth gynnar er mwyn atal cysgu ar y stryd rhag cael ei ymwreiddio, ac i ddatblygu ystod o atebion llety a chymorth wedi'u teilwra i anghenion unigol.

**PENDERFYNWYD**

1. y cytunir ar Strategaeth Cysgu ar y Stryd Caerdydd 2017-2020 fel y restrir yn Atodiad 1.

2. Y caiff awdurdod ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid i fynd i mewn i brotocol ar y cyd gyda Gwasanaethau Mewnfudo a Heddlu De Cymru er mwyn mynd i'r afael â phroblem pobl o'r AEE yn cysgu ar y stryd yn y ddinas.

3. y dylid diwygio Cynllun Gwario Grant y Rhaglen Cefnogi pobl er mwyn cynnwys rhagor o wybodaeth o ran yr unedau o gymorth i'w darparu gan y cynlluniau newydd ac arloesol i fynd i'r afael â digartrefedd.